Canlyniadau archwiliad rhyng awdurdod lleol Cymru gyfan o orfodaeth iechyd a diogelwch 2004-05.

ADRODDIAD I GYFARWYDDWYR DIOGELU'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

Mis Ebrill 2006

DIOLCHIADAU.

Diolch i aelodau o staff awdurdodau lleol a arweiniodd y timau archwilio, ac i Arolygwyr HSE a'u cefnogodd y tu hwnt i'w swyddogaeth gychwynnol o gymedroli'r broses.

Diolch hefyd i aelodau o staff awdurdodau lleol y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliadau, neu a gyfrannodd at y broses fel arall. Rhoddodd pob un ohonynt o'i amser yn hael ac yn amyneddgar; ni fyddai'r archwiliadau wedi bod yn bosibl heb eu help.

Yn olaf, diolch i Martin Jeeves o'r HSE a gydgysylltodd yr holl broses a drafftio'r adroddiad.

CYNNWYS

1. Crynodeb gweithredol

2. Cyflwyniad

3. Y broses archwilio

4. Yr archwiliad yng Nghymru 2004-05

5. Dadansoddiad data LAE1

6. Y Canlyniadau – dangosyddion perfformiad awdurdodau lleol Cymru

7. Trafodaeth – gan gynnwys cysylltiadau â'r adrannau perthnasol.

8. Atodiad 1 – meysydd i'w gwella yn y broses archwilio

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Gyda'i gilydd mae Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith ym Mhrydain Fawr o dan gyfarwyddyd cyffredinol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud *trefniadau digonol* a chyflawni eu dyletswyddau ar gyfer gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn unol ag arweiniad **gorfodol** gan yr HSC a wnaed o dan Adran 18 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

Yn ystod 2004/5, cytunodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru y byddai pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cyfranogi mewn archwiliad **rhyng** Awdurdod gan ddefnyddio protocol a luniwyd gan yr Uned Awdurdodau Lleol yn yr HSE er mwyn asesu faint y maent yn cydymffurfio â'r arweiniad **gorfodol** hwn yn Adran 18. Mae'r system sgorio a ddefnyddir i fesur cydymffurfiaeth yn gymhleth, ac yn rhoi sgôr yn erbyn elfennau unigol ynghyd â sgôr gyffredinol. Mae sgôr o "0" yn nodi dim cydymffurfiaeth; mae sgôr o "1" yn nodi cydymffurfiaeth anaml; mae sgôr o "2" yn nodi cydymffurfiaeth aml; mae sgôr o "3" yn nodi cydymffurfiaeth lawn gyda gofynion Adran 18.

Gan ddefnyddio'r cynllun sgorio cyffredinol diwygiedig (tecach), dangosodd 3 awdurdod lleol gydymffurfiaeth lawn, dangosodd 12 gydymffurfiaeth aml, dangosodd 5 gydymffurfiaeth anaml, ac roedd 2 yn methu â chydymffurfio.

Nid ystyriwyd arfer gorau yn ystod yr archwiliad, ond nododd yr archwilwyr sawl enghraifft o arfer gorau, a rhennir y rhain gydag eraill. Yn ddiddorol iawn, roedd rhai rhagdybiaethau posibl nad oedd canlyniadau'r archwiliad yn eu cefnogi, er enghraifft y rhagdybiaeth na fyddai awdurdodau lleol llai yn perfformio cystal.

Deilliodd ambell fater arwyddocáol o'r archwiliadau. Gyda rhai eithriadau anrhydeddus, blaenoriaeth gymharol isel y mae uwch reolwyr ac Aelodau etholedig yn ei rhoi i reoleiddio iechyd a diogelwch. Defnyddiodd llawer o swyddogion yr ymadrodd "gwasanaeth Sinderela". I'r gwrthwyneb, rhoddir llawer mwy o flaenoriaeth i ddiogelwch bwyd, a hynny yn aml ar draul iechyd a diogelwch.

Er bod "adnoddau digonol" yn broblem i lawer o'r cyfranogwyr mwy na thebyg, nid yw hwn yn gwestiwn hawdd ei ateb. Nid oes ffigur du a gwyn y gellir barnu yn ei erbyn ac mae, wrth gwrs, yn fater cymhleth. Un cwestiwn dilys ar ôl archwiliad yw "a oes gan yr awdurdod adnoddau i weithredu a chynnal yr hyn y mae'r archwiliad yn ei argymell?"

Roedd rhai cynlluniau gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar nifer o ymweliadau yn hytrach na chanlyniadau, er bod hyn yn newid, wrth i awdurdodau lleol ymgymryd ag arolygiadau targed a phrosiectau ar y cyd.

Yn gyffredinol, tybiwyd bod swyddogion, waeth be fo'u statws, yn gymwys i wneud yr hyn yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud; credai'r swyddogion a'r timau hynny a dreuliai eu hamser i gyd neu'r rhan fwyaf ohono yn ymdrin ag iechyd a diogelwch eu bod yn gallu canolbwyntio'n well arno a'u bod yn fwy effeithiol.

Mater arall i'w nodi oedd mater y gweithdrefnau gorfodi ffurfiol. Roedd llawer o Hysbysiadau gorfodi yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd, i'r graddau eu bod yn gyfreithiol annilys weithiau – er na chafwyd her gyfreithiol. Ymdriniwyd â hyn eisoes drwy ddarparu hyfforddiant pellach.

Yn aml roedd diffyg monitro ystyrlon gan uwch reolwyr; yn aml pan fodolai hyn fe'i cyfyngwyd i ystyried nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd.

I grynhoi, cafwyd bod llawer o awdurdodau lleol yn gwneud yn rhesymol dda, er bod lle i wella mewn amryw feysydd. Mae effeithiolrwydd cyffredinol yn fesur enwog o anodd ei werthuso a chydnabyddir bod cyfyngiadau i'r ymarfer archwilio hwn. Disgrifir rhai dewisiadau ar gyfer gwella'r broses ei hun yn Atodiad 1.

Yn anochel, ciplun o amser sydd yn yr archwiliadau; byddai pob awdurdod lleol yn sgorio'n uwch erbyn hyn oherwydd camau a gymerwyd yn dilyn yr archwiliadau – yn wir, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio cynllun gweithredu gyda'r nod o gyflawni'r gwelliannau a argymhellwyd.

Un o ganlyniadau cadarnhaol ac arwyddocáol iawn y broses archwilio oedd datblygu "*Strategaeth ar gyfer gwella Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yng Nghymru"*. Datblygwyd y strategaeth er mwyn cyflawni strategaeth y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC), "*Strategaeth ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain Fawr hyd at 2010 a thu hwnt*". Y partneriaid sy'n cydweithio yn natblygiad y strategaeth yw'r HSE, awdurdodau lleol yng Nghymru a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Datblygwyd y strategaeth i ddarparu iechyd a diogelwch galwedigaethol yng Nghymru yn fwy effeithiol, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau, risg a pherfformiad gwael er mwyn cyflawni canlyniadau diriaethol a chynaliadwy. Ei gobaith yw adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud eisoes yng Nghymru, yn enwedig o ran gweithio mewn partneriaeth a chyflawni prosiectau ar y cyd, ac o ran datblygu a gweithredu arfer da.

2. CYFLWYNIAD

a) Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ganlyniadau'r archwiliadau rhyng awdurdod o weithgareddau gorfodi iechyd a diogelwch awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn ceisio nodi rhai meysydd cyffredin a materion sy'n codi.

b) Penderfynodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru y byddai pob awdurdod lleol yn cael ei archwilio gan gymheiriaid yn ystod ail hanner blwyddyn 04/05; gan gynnwys yr ychydig rai a oedd wedi eu harchwilio yn flaenorol. Byddai'r HSE yn rhoi cymorth cymedroli drwy gyfrwng arolygydd yn cydweithio â'r prif archwilydd a oedd yn swyddog o awdurdod lleol. Byddai'r HSE hefyd yn cydgysylltu'r ymarfer ac yn llunio'r adroddiad hwn.

c) Diben yr archwiliadau oedd helpu i gyflawni gwelliannau gan gynnwys rhannu'r arfer gorau a hefyd nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio cydgysylltiedig gwell.

ch) **Nid** oedd yn archwiliad o'r awdurdodau lleol hynny gan yr HSE. Archwiliad awdurdod gan gymheiriaid ydoedd gan ddefnyddio protocol a luniwyd gan yr uned awdurdodau lleol yn yr HSE. Fel y'i defnyddiwyd yn yr archwiliad hwn, cyfweliad ydoedd ac ymarfer gwaith papur bwrdd gwaith. Ei brif nod oedd asesu i ba raddau yr oedd awdurdod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan adran 18 deddf iechyd a diogelwch yn y gwaith i gyflawni ei ddyletswyddau gorfodi iechyd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys cyflawni targedau a blaenoriaethau'r HSC. [Nid yw'n ymwneud â dyletswyddau iechyd a diogelwch awdurdod i'w staff ei hun nac i eraill]

d) Mae'n ddigon hawdd cyflwyno sgoriau mewn adroddiad cyfansawdd. Mae gwerthusiad yn fwy cymhleth, yn ogystal â distylliad (er y byddai'n seiliedig ar yr un set o gwestiynau) o'r holl adroddiadau sy'n amrywio o ran eu harddull, eu dyfnder a'u cynnwys.

dd) Cafwyd peth o'r deunydd ar gyfer hyn y tu allan i adroddiadau'r archwiliad h.y. o sylwadau a sgyrsiau. Pan deimlir bod y rhain o werth cynhwysir deunyddiau storïol o'r fath. Yn aml roedd sylwadau o'r fath yn gryfach na'r hyn a geir yn yr adroddiadau.

e) Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau archwiliadau a hefyd yn ceisio cyfuno'r materion a'r pwyntiau mwyaf sylweddol sy'n codi. Mae'n nodi amrywiadau sylweddol rhwng awdurdodau lleol mewn sawl agwedd ar eu gweithgaredd gorfodi iechyd a diogelwch. Mae'r archwiliad yn ymarfer bwrdd gwaith a all ffafrio perfformiad ar bapur dros berfformiad ymarferol.

f) Mae angen deall y cyfyngiadau a'r rhybuddion sy'n cyd-fynd â'r sgoriau cyffredinol a'r sgoriau adrannol er mwyn eu gwerthfawrogi'n well. Ni ddylid eu darllen fel unrhyw fath o dabl cynghrair. Er eu bod wedi eu cynnal gan ddefnyddio yr un fframwaith nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol gan fod

pob tîm archwilio'n wahanol ac i'r rhan fwyaf o bobl a oedd yn ymwneud â'r gwaith hwn oedd eu profiad cyntaf gyda'r protocol hwn.

ff) Drwy gyd-ddigwyddiad, mae'r archwiliadau'n digwydd ar adeg ddiddorol. Yn ddiweddar daeth adroddiadau pwysig i'r amlwg a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y gweithgaredd hwn, yn enwedig adroddiad Hampton, ac mae eu canfyddiadau'n cael eu hystyried a'u gweithredu ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae newidiadau mawr ar y gweill o ran sut y trefnir ac y targedir gweithgaredd gorfodi. Mae arolygiadau pwnc a dulliau sy'n wahanol i arolygiadau traddodiadol yn dod i'r amlwg erbyn hyn.

3. Y BROSES ARCHWILIO

a) Mae Uned Awdurdodau Lleol yr HSE wedi llunio protocol archwilio a'i amcan fydd asesu i ba raddau mae dulliau awdurdodau lleol o orfodi iechyd a diogelwch yn cydymffurfio ag arweiniad adran 18 gorfodol yr HSC. Defnyddir hwn gan yr uned awdurdodau lleol i archwilio awdurdodau penodol, ond gall awdurdodau ei ddefnyddio hefyd i gynnal hunanarchwiliad neu i gynnal archwiliad rhyng awdurdod. Dylid ei wneud bob pum mlynedd a dylai fod cynllun gweithredu yn deillio ohono. Y bwriad hefyd yw y bydd yn llywio adolygiadau Gwerth Gorau.

b) Mae'r archwiliad yn edrych ar wahanol agweddau ar y gweithgaredd drwy astudio gwaith papur a chyfweld â staff. Defnyddir canllaw i roi dangosydd perfformiad rhifol ar gyfer pum adran y protocol: -

A - Polisi a gweithdrefnau gorfodi;

B - Rhaglen wedi'i reoli yn seiliedig ar risg;

C - Cymhwysedd;

CH - Ymchwiliadau;

D - Rheoli Perfformiad;

c) Clustnodir sgoriau ar gyfer gwahanol elfennau ymhob adran. Yna, talgrynnir y sgôr i lawr i rif cyfan, e.e. mae 1.7 gwirioneddol yn rhoi sgôr o 1 ar gyfer yr adran honno o dan y protocol.

dd) Y dangosydd perfformiad cyffredinol yw sgôr yr adran sgorio *isaf*, e.e. bydd 2, 2, 1, 1, 2 ar gyfer y pum adran yn rhoi sgôr gyffredinol o 1. Dylid cofio'r meini prawf hyn wrth ystyried y canlyniadau. Os oes modd gwneud hynny, mae mantais o edrych ar sgoriau gwirioneddol yr adrannau o'u cymharu â'r ffigur wedi'i dalgrynnu i lawr.

e) Mynegwyd pryderon ynghylch tegwch y system sgorio bresennol. Teimlwyd yn benodol bod neges negyddol yn cael ei chyfleu ar adegau, yn groes i ddiben cyffredinol yr archwiliad.

f) Manteisiwyd ar y cyfle i osod y system sgorio bresennol ochr yn ochr â model arall a luniwyd yn ddiweddar gan yr uned awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â'r ffaith y gallai sgôr wael mewn un maes, ar hyn o bryd, olygu sgôr gyffredinol nad yw'n adlewyrchu perfformiad yr awdurdod yn llawn.

ff) O dan y system bresennol byddai sgôr o 2, 2, 1, 2, 2 ar gyfer y pum elfen yn rhoi sgôr gyffredinol o 1. O dan y cynllun diwygiedig gallai'r un sgoriau roi sgôr gyffredinol o 2. Golygodd defnyddio'r system sgorio ddiwygiedig fod 3 awdurdod wedi cyrraedd safon uwch o gydymffurfio ag arweiniad adran 18

g) Dylid nodi, er bod enghreifftiau o arfer gorau wedi eu nodi, na farciwyd y rhain felly 3 oedd y sgôr gyffredinol uchaf y gellid ei chyrraedd (yn hytrach na 4 fel y nodwyd yn y protocol archwilio). Cyflwynir y ddwy set hyn o sgoriau cyffredinol ynghyd â'r sgoriau wedi'u talgrynnu i lawr a sgoriau gwirioneddol yr adrannau yn NHABL 1 ar dudalen 9.

ng) Yn anochel, ni all y protocol archwilio gadw ar y blaen i newidiadau. Golyga hyn, fel yn yr achos yma, nad yw arferion a dulliau mwyaf modern, e.e. model rheoli gorfodol ac arolygiadau pwnc, mor amlwg ag y byddant yn yr adolygiad nesaf, er bod y protocol presennol yn eu hystyried yn rhannol.

h) Un pwynt calonogol yw bod sawl cyfrif yn dangos pa mor agos yr oedd manylion y sgoriau a gafwyd yn annibynnol gan ddau aelod o'r tîm archwilio. Yn ogystal, teimlai llawer o archwilwyr, er y byddent wedi hoffi cael mwy o amser i gynnal archwiliadau mwy trylwyr i gynnwys cyd-arolygiadau ac ati, eu bod wedi cael argraff dda o berfformiad awdurdod erbyn diwedd diwrnod yr archwiliad. Fodd bynnag, o ystyried bod gwahanol dimau yn gwneud yr holl archwiliadau mae angen ystyried cymaroldeb a chysondeb rhwng yr archwiliadau.

i) Y prif gyfeiriadau at y broses archwilio yw 1. arweiniad adran 18 (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974) i awdurdodau lleol a chylchlythyr awdurdod lleol 23/17, 2. cylchlythyr awdurdod lleol 23/19, disgrifiad y protocol a'r fframwaith, a 3. cylchlythyr awdurdod lleol 23/20, y dangosydd perfformiad h.y. "sgorio".

4. YR ARCHWILIAD YNG NGHYMRU 04/05

a) cytunwyd ar y meini prawf canlynol.

- Byddai awdurdodau lleol cyfagos yn archwilio'i gilydd.

- Er bod yr archwiliad yn chwilio am enghreifftiau o arfer gorau er mwyn eu rhannu yn y dyfodol ni fyddai elfen arfer gorau'r archwiliad yn cael ei defnyddio. Golygai hyn mai 3 fyddai'r sgôr uchaf.

- Fel arfer byddai gwahanol arolygwyr HSE a swyddogion awdurdodau lleol yn y tîm archwilio o 2. Ni chafwyd yr un pâr drwy gydol yr archwiliadau. Cymerodd 1 arolygydd HSE ran mewn 3 archwiliad, 4 arolygydd HSE mewn 2; cymerodd 1 swyddog awdurdod lleol ran mewn 2 archwiliad. Dim ond mewn un archwiliad y cymerodd pob swyddog arall ran.

- Tybiwyd bod pob swyddog awdurdod a HSE yn gymwys i gynnal yr archwiliadau.

b) Digwyddodd yr archwiliadau rhwng mis Hydref 04 a mis Mawrth 05, a gohiriwyd un tan fis Mehefin 05. Ar y cyfan, roeddent yn para diwrnod, a dogfennau allweddol wedi eu darparu ymlaen llaw.

c) Archwiliwyd ambell awdurdod lleol yn flaenorol ond cytunwyd y byddai pob awdurdod lleol yn cyfranogi.

ch) Er mai swyddogion awdurdodau lleol (swyddogion iechyd yr amgylchedd yn bennaf) fyddai'r prif archwilwyr cytunwyd gyda'r HSE y byddai Arolygydd HSE yn mynd yn bartner gyda phrif archwilydd - fel cymedrolwr yn bennaf - i greu tîm archwilio. Yn ogystal â chynorthwyo yn yr archwiliad teimlwyd y byddai hyn yn ychwanegu annibyniaeth a safbwynt ychwanegol defnyddiol at yr archwiliadau. Un cyd-ddigwyddiad buddiol yw bod y cyd-ymarfer hwn rhwng awdurdodau lleol a'r HSE wedi bod yn amserol ac yn werthfawr o ran meithrin gweithio mewn partneriaeth: oherwydd yr archwiliadau mae rhyw 80+ o swyddogion/arolygwyr wedi gweithio gyda'i gilydd ledled Cymru. Yn ogystal â'r manteision hynny mae'r ddwy ochr wedi dysgu llawer o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r modd y mae'r naill a'r llall yn gweithio. Er nad yw'n rhan o'r adroddiad hwn bu'r HSE yng Nghymru yn destun yr un broses archwilio gan dîm awdurdod lleol.

d) Fel y gellid ei ddisgwyl nid oedd yr ymarfer hwn heb ei anawsterau a'i ffaeleddau. Cofnodir y rhain nid yn unig o ran cofnod ond hefyd er budd eraill a fydd am geisio cyflawni ymarfer tebyg yn y dyfodol, gweler Atodiad 1, "gwersi yn deillio o gynnal yr archwiliad"

dd) Cyn ac yn ystod yr ymarfer cafwyd cysylltiad gyda'r uned awdurdodau lleol a ddarparodd yr hyfforddiant cychwynnol a chyngor trwy gydol yr ymarfer. Roeddent hefyd yn awyddus i gael adborth o'r ymarfer.

5. Dadansoddiad data LAE1

a) Mae awdurdodau lleol yn cwblhau'r ffurflen LAE1 yn flynyddol ar gyfer yr uned awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys data allweddol a gellir ei ddadansoddi i roi darlun rhannol o berfformiad awdurdod lleol. Dadansoddwyd y ffigurau ar gyfer 2002-03 gan y cydgysylltydd archwilio cyn yr archwiliadau a thynnodd yr archwilwyr sylw at y ffaith eu bod yn amrywio'n fawr o gymharu â ffigurau cyfartalog y DU.

b) Fodd bynnag mae angen arfer gofal wrth ddehongli rhai o'r ffigurau hyn: adeiladau; mae rhai awdurdodau yn well na'i gilydd am ychwanegu/tynnu adeiladau o'u cronfeydd data; gallai awdurdodau lleol ddehongli nodiadau arweiniad y ffurflen yn wahanol.

c) Mae rhai cymariaethau diddorol yn codi; mae'r ystod yn nodedig. Nid oes targed na delfryd felly ni ellir dweud bod unrhyw ffigur penodol yn foddhaol nac yn dderbyniol. Ond mae'r ffigurau yn awgrymu y gellid gwneud gwell defnydd o'r data hwn ar gyfer cymariaethau. Mae hefyd yn dangos yr amrywiaeth o ddulliau sydd o gyflawni gofynion Adran 18.

- Mae adeiladau fesul arolygydd cyfwerth ag amser llawn yn amrywio o 400 i 2,730.

- Mae nifer y bobl mewn tîm yn amrywio o 5 i 15.

- Mae ymchwiliadau i ddamweiniau fel % o'r rhai a gofnodwyd rhwng 13 a 100.

- Mae'r gyfradd ailymweld fel % o arolygiadau ataliol yn amrywio o 0 i 100.

- Mae nifer yr adeiladau Categori A yn amrywio gan ffactor o 100x pan y'i mynegir fel % o gyfanswm y ffigur adeiladau.

- Mae % yr ymweliadau sy'n gyfunol [bwyd ac iechyd a diogelwch] yn amrywio o 0 i 90.

6. Y CANLYNIADAU – dangosyddion perfformiad awdurdodau lleol Cymru.

Trefniadaeth

Roedd nifer o fodelau yma. Dim ond ag iechyd a diogelwch yr ymdriniodd rhai timau; roedd eraill yn rhannu rolau, gan ymdrin â bwyd a chlefydau trosglwyddadwy yn gyffredinol yn ogystal ag iechyd a diogelwch, ac efallai mai dim ond cyfran [fechan] o amser yr oeddent yn ei dreulio ar orfodi iechyd a diogelwch. Roedd dyletswyddau eraill yn ymwneud â diogelwch megis trwyddedu petrolewm. Yn aml, ond nid bob amser, arweinid timau gan uwch swyddog iechyd yr amgylchedd, a chynhwysent swyddogion llawn amser a rhan amser, ac yn bennaf swyddogion iechyd yr amgylchedd a/neu Swyddogion Technegol oeddent er y gallai swyddogion safonau masnach neu ymgynghorwyr iechyd a diogelwch fod yn rhan o'r tîm.

Darparwyd rheolaeth uwch gan bobl a amrywiai o ran teitl ond fel arfer roedd eu teitlau bellach yn adlewyrchu eu rôl luosog megis Rheolwyr Iechyd a Bwyd a Thrwyddedu, ynghyd â chwmpas eu dyletswyddau. Rheolai rhai ohonynt ystod eang o weithgareddau. Roedd eu cefndir neu eu profiad o iechyd a diogelwch yn amrywio.

Nid roddodd yr archwiliad gasgliad clir ar yr hyn sy'n gweithio'n dda neu'n wael.

Fodd bynnag, mae'n werth cofnodi rhai canfyddiadau a nodwyd.

- Ymddengys bod y timau hynny a dreuliai eu hamser i gyd neu'r rhan fwyaf ohono yn ymdrin ag iechyd a diogelwch yn cael mwy o foddhad o'u gwaith a theimlent eu bod yn gallu canolbwyntio'n well a'u bod yn fwy effeithiol.

- Roedd swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion technegol yn cael sylwadau cadarnhaol ynghylch eu gwaith, eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd.

- Mynegwyd peth pryder ynghylch sefyllfaoedd pan reolid swyddogion gan bobl heb gefndir iechyd a diogelwch; yn benodol pan fyddai angen trafod materion mwy cymhleth.

- Croeso cymysgu a gafwyd i gymysg pynciau eraill gydag iechyd a diogelwch, yn enwedig diogelwch bwyd. Croesawai rhai yr amrywiaeth, ond teimlai eraill fod hynny'n anodd ac yn ddryslyd. Nododd rhai mai prin oedd y sylw a gâi iechyd a diogelwch o gymharu â diogelwch bwyd.

- Perfformiodd awdurdodau bach gystal ag awdurdodau mawr.

Canlyniadau'r archwiliad

Ciplun o amser sydd yn y canlyniadau. Byddai pob awdurdod lleol yn sgorio'n uwch erbyn hyn oherwydd camau a gymerwyd yn dilyn yr archwiliadau. Mae llawer o awdurdodau wedi defnyddio adroddiad yr archwiliad i godi proffil iechyd a diogelwch yn eu hawdurdod ac i ddadlau'r achos am fwy o adnoddau yn llwyddiannus.

a) Nodir y canlyniadau yn NHABL 1. Mae * yn nodi'r rhai hynny lle na phenderfynwyd ar yr adroddiad hyd yma. Mae ystyr y sgôr gyffredinol fel a ganlyn:

- 0 - nid yw'n cydymffurfio ag arweiniad adran 18;
- 1 - cydymffurfir â'r gofynion yn anaml;
- 2 - cydymffurfir yn aml;
- 3 - cydymffurfir yn llawn.

b) Gellid dadlau bod sgoriau **gwirioneddol** yr adrannau unigol yn bwysicach na'r sgoriau cyffredinol.

c) Mae'r sgoriau cyffredinol ffigur llawn yn amrywio o 0 (nid yw'n cydymffurfio) i 3 (cydymffurfir yn llawn â'r gofynion).

ch) Mae'r cynllun sgorio **gwreiddiol** yn rhoi un 3, un ar ddeg 2, wyth 1, a dau 0.

d) O dan y cynllun **diwygiedig** mae tri 3, deuddeg 2, pump 1, a dau 0.

dd) Dangosir y lefel o gydymffurfiaeth ag arweiniad adran 18 yn Nhabl 2.

e) Dengys hwn lefelau uwch o gydymffurfiaeth ar gyfer Cymhwysedd lle mae 19 awdurdod lleol yn sgorio 2 neu'n uwch sy'n nodi cydymffurfiaeth aml neu lawn, ac ar gyfer Ymchwiliadau lle mae 18 awdurdod lleol yn sgorio 2 neu'n uwch.

f) Dangosir lefelau is o gymhwysedd ar gyfer Polisïau ac Arferion Gorfodi lle mae 8 awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r safon yn anaml ac ar gyfer Rheoli Perfformiad lle mae 5 yn cydymffurfio â'r safon yn aml a 2 yn methu â chydymffurfio.

Teimlwyd bod cefndir a safonau awdurdod y prif archwilydd (swyddog awdurdod lleol) ei hun wedi dylanwadu ar ganlyniadau'r archwiliad. Roedd safonau eu hawdurdod eu hun *o'i gymharu* â rhai'r awdurdod a gâi ei archwilio yn ffactor yn y modd yr oedd yr archwilydd yn ystyried yr awdurdod a archwiliai.

Mae dylanwad yr arolygiadau a oedd yn ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn berthnasol i'r rôl orfodi iechyd a diogelwch mewn rhai awdurdodau. Roedd y maes hwn yn destun llawer o sylwadau yn ystod yr archwiliadau. Er y gallai fod peth gwrth adwaith ar y ffordd mae cytundeb bod gofynion diogelwch bwyd a'r gyfundrefn archwilio gysylltiedig wedi bod yn drech yn y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn ar draul iechyd a diogelwch fel pwnc o ran blaenoriaeth ac o ran adnoddau. Mae gofynion yr asiantaeth safonau bwyd ar gyfer awdurdodau lleol yn fwy manwl, meintiol a rhagnodedig na gofynion Adran 18 yr HSC.

Tabl 1. *SGORIAU ARCHWILIO FESUL AWDURDOD LLEOL*; ar y cyfan a fesul adran.

** ni chytunwyd neu ni lluniwyd yr adroddiad hyd yma. - nid yw'r ffigur gwirioneddol ar gael*

AWDURDOD LLEOL	SGÔR GYFFREDINOL		ADRAN A SGORIAU ffigur llawn/gwirioneddol				
	Cynllun Presennol	Cynllun Diwygiedig	A	B	C	D	E
YNYS MÔN	**2**	**2**	2/2.0	3/3.0	2/2.6	2/2.0	2/2.1
BLAENAU GWENT	**2**	**2**	2/2.5	2/2.2	3/3.0	2/2.3	2/2.1
PEN-Y-BONT AR OGWR	**1**	**2**	1/ 1.7	2/ 2.3	2/ 2.1	2/ 2.1	1/ 1.9
CAERDYDD	**2**	**[3]**	3/3.4	3/3.2	2/2.7	3/3.0	3/3.0
CAERFFILI	**2**	**2**	3/ 3.1	2/ 2.8	2/ 2.7	2/ 2.9	2/ 2.4
CAERFYRDDIN	**1**	**1**	1/ -	1/ -	1 /-	1/ -	1/ -
CEREDIGION	**2**	**[3]**	3/3.0	2/2.6	3/3.0	3/3.0	2/2.0
CONWY	**2**	**2**	3/ -	2/ -	3/ -	2/ -	2/ -
SIR DDINBYCH	**0**	**0**	1/1.7	1/1.1	0/0.8	1/1.4	0/0.6
SIR Y FFLINT	**2**	**2**	2/ 2.3	2/ 2.6	2/ 2.2	2/ 2.4	2/2.0
GWYNEDD	**1**	**1**	2/2.3	1/1.0	2/2.6	2/2.3	1/1.8
MERTHYR TUDFUL	**2**	**2**	2/ 2.7	2/ 2.6	2/ 2.6	2/ 2.5	2/ 2.4
SIR FYNWY	**2**	**2**	2/2.5	2/2.5	2/2.7	2/2.8	2/2.3
CASTELL-NEDD PORT TALBOT	**1**	**2**	1/1.8	2/2.7	2/2.0	2/2.2	3/3.0
CASNEWYDD	**1**	**1**	1/ 1.0	1/ 1.8	2/ 2.1	1/ 1.8	1/ 1.0
SIR BENFRO	**1**	**2**	1/1.9	2/2.5	2/2.3	2/2.3	2/2.6
POWYS *	**2**	**2**	2/2.1	3/3.0	2/2.1	2/2.1	2/2.1
RHONDDA CYNON TAF	**0**	**0**	1/ -	0/ -	2/ -	2/ -	0/ -
ABERTAWE	**3**	**3**	3/3.1	3/3.0	3/3.0	3/3.0	3/3.1
TOR-FAEN	**1**	**1**	2/ 2.2	2/ 2.0	1/ 1.9	1/ 1.7	2/ 2.1
BRO MORGANNWG	**2**	**2**	2/ 2.4	3/ 3.2	2/ 2.6	2/ 2.7	3/ 3.3
WRECSAM	**1**	**1**	1/ -	1/ -	2/ -	2/ -	1/-

Tabl 2: Lefel o gydymffurfiaeth ar gyfer pob adran

Lefel Cydymffurfiaeth	Nifer yr Awdurdodau Lleol yn cyrraedd lefel cydymffurfiaeth pob adran				
	Polisi a gweithdrefnau gorfodi	Rhaglen waith wedi'i rheoli yn seiliedig ar risg	Cymhwysedd	Ymchwiliadau	Rheoli Perfformiad
0		1	1		2
1	8	5	2	4	5
2	9	11	15	15	11
3	5	5	4	3	4

7. TRAFODAETH – GAN GYNNWYS CYSYLLTIADAU Â'R ADRANNAU PROTOCOL

Dylid ystyried y materion canlynol yn deillio o'r adroddiadau archwilio. Mater i Benaethiaid Panel Technegol Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch Cymru fydd bwrw ymlaen â'r materion hynny y tybir bod angen eu hystyried ymhellach. Gellir datrys llawer, os nad y rhan fwyaf, o'r pwyntiau a godwyd drwy nodi a rhannu arfer da neu arfer gorau.

Polisïau ac Arferion Gorfodi

Polisi Gorfodi

a) Mae'n ofynnol i awdurdod lleol gael polisi gorfodi sy'n gyson â pholisi gorfodi cyhoeddedig yr HSC. Nododd rhai archwiliadau fod polisïau lluosog yn bodoli, gydag amheuaeth ynghylch pa un a oedd yn berthnasol a/neu a oedd yn gyfoes. Rhaid egluro hyn gyda pholisi gorfodi iechyd a diogelwch eglur, mae'n bosibl iawn y bydd angen cysylltiadau a chyfeiriadau priodol er mwyn ei wneud yn berthnasol i bolisïau adrannol eraill neu bolisïau'r cyngor cyfan.

B) Amrywiai awdurdodau lleol yn eu defnydd o'r we. Teimlai rhai bod rhoi eitemau penodol ar wefan y cyngor nid yn unig yn hwyluso'r gwaith o gynnal a chadw'r wefan ond ei bod hefyd yn ei gwneud yn hawdd cyfeirio atynt mewn unrhyw ohebiaeth.

Arferion Gorfodi

a) **Hysbysiadau Gorfodi** Dyma'r mater mwyaf amlwg a chyffredin a nodwyd mewn archwiliadau. Roedd llawer o Hysbysiadau a welwyd mewn llawer o awdurdodau yn ddiffygiol i raddau helaeth neu raddau llai. Gallai rhai ohonynt fod wedi bod yn gyfreithiol annilys, nid oedd rhai yn unol â'r arfer gorau, roedd rhai eraill nad oeddent mor gadarn ag y gallent fod wedi bod gan gynnwys eu bod wedi creu anawsterau wrth eu cyflawni. Fodd bynnag, dylid nodi na nodwyd adwaith gwael i hysbysiadau e.e. apeliadau, o gwbl.

   Gweithredwyd camau hyfforddi ar y mater hwn cyn gynted ag y daeth yn eglur o'r archwiliadau cynnar ei fod yn fater o bwys.

b) **Model Rheoli Gorfodi** Y Model Rheoli Gorfodi yw'r dull o gyflawni cysondeb a chyfrannedd. Dim ond yn gymharol ddiweddar y mae awdurdodau lleol wedi dechrau ei ddefnyddio ac o ganlyniad roedd amrywiaeth sylweddol o ran defnydd awdurdodau lleol ohono. Fodd bynnag, ychydig o gyfeiriadau a gafwyd gan archwilwyr yn yr adroddiadau

archwilio at weithredu amhriodol naill ai mewn llythyrau neu ar hysbysiadau a welwyd.

c) **Gohebiaeth** Mae llawer o awdurdodau yn dal i weithredu gweithdrefn sy'n golygu bod rhaid anfon llythyr ar ôl pob ymweliad beth bynnag yw difrifoldeb yr hyn a gaed yn ystod yr ymweliad hwnnw. Nododd llawer o swyddogion eu bod yn credu bod yr elfen hon yn ddefnydd diangen o'u hamser.

Defnyddiai rhai awdurdodau ffurf ddiweddar o gofnod ar unwaith yn seiliedig ar arolygiad pwnc h.y. gadewir copi o'r llawysgrif ar y safle. Roedd eraill yn dal i ddefnyddio adroddiadau byr cyfyngedig sydd wedi dyddio braidd sy'n cwmpasu rhai pethau sylfaenol yn unig e.e. Poster Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, blwch cymorth cyntaf. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod barn ynghylch defnyddio ffurflenni o'r fath yn amrywio.

Roedd llythyrau yn amrywio o fod wedi eu saernïo'n dda i fod yn rhy gwta.

Rheoli gweithgareddau gorfodi

a) Cynhaliodd pob awdurdod gyfarfodydd tîm lle trafodwyd materion iechyd a diogelwch.

b) Mae presenoldeb da yn y tasgluoedd rhanbarthol a sefydlwyd o dan y Panel Technegol Iechyd a Diogelwch, ac maent yn hybu ymagwedd gyson ledled Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai awdurdodau yn absennol yn rheolaidd.

Rhaglen waith wedi'i rheoli

Rhaglen yn seiliedig ar risg

a) Gwelwyd nad yw llawer o awdurdodau a archwiliwyd wedi dyrannu adnoddau sylweddol eto i ddulliau heblaw arolygiadau traddodiadol o adeiladau a gaiff eu graddio. Fodd bynnag, mae mwy o dystiolaeth o hyn yn y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae llawer o awdurdodau wedi dewis rhedeg ymgyrchoedd lleol a rhai digwyddiadau. Buont hefyd yn cydweithio gyda'r HSE yng Nghymru.

b) Defnyddiodd pob un gyfuniad o ddulliau gorfodi o gynghori i weithredu ffurfiol.

c) Tybiodd rhai fod cyfuno diogelwch bwyd gydag ymweliadau iechyd a diogelwch yn golygu rhaglen gyffredinol heb gydbwysedd o ran risg pe câi hynny ei or-wneud.

System cynllunio blaenoriaethau

a) Mae'r protocol yn ei gwneud yn ofynnol bod cronfa ddata fanwl gywir gan awdurdodau. Roedd cronfeydd data diweddar gan rai awdurdodau lleol, a diweddarir y rhain yn rheolaidd gan ddefnyddio gwybodaeth o arolygon, adrannau ardrethi busnes, llyfrau ffôn ac ati. Mewn rhai awdurdodau lleol nid oedd y cronfeydd data yn rhai diweddar.

b) Nodwyd amrywiadau mewn gwahanol systemau TG ac yng ngallu'r defnyddiwr i greu data defnyddiol.

c) Rhaid mai nod pennaf cofnod ysgrifenedig neu TG yw rhoi cyfrif parod, cryno, darllenadwy a pherthnasol o hanes safle. Mae cofnodion digonol yn hanfodol ar gyfer ystyriaethau model rheoli gorfodi. Gwelwyd nad oedd rhai cofnodion cyfrifiadurol a rhai cofnodion ar bapur yn cyflawni hyn. Roedd yn anodd cael gafael ar hanes llawn o rai cofnodion cyfrifiadurol ac roedd rhai ffeiliau papur yn daclus ac wedi eu hisrannu (e.e. iechyd a diogelwch ar wahân i fwyd), lle gellid cael gafael ar wybodaeth berthnasol yn hawdd; nid oedd hyn yn wir am eraill.

Cynllun Gwasanaeth

a) Roedd rhai cynlluniau gwasanaeth nad oeddent yn cynnwys targedau mesuradwy nac yn manylu ar yr adnoddau a oedd yn angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen waith.

b) Dylai cynlluniau gwaith adlewyrchu'r ffyrdd "newydd" o weithio drwy fanylu ar gyfraniadau i ymgyrchoedd Cenedlaethol ac i fentrau gweithio ar y cyd.

c) Hwn yw'r pwynt mwyaf priodol, fwy na thebyg, o gofnodi'r ffaith i swyddogion yn gweithio ym maes iechyd a diogelwch ddweud eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn gweithredu ym maes Sinderela eu hadrannau ac mai ychydig o flaenoriaeth ac ychydig o ddiddordeb a ddangosid i orfodi iechyd a diogelwch.

ch) Mae'r ffaith nad oes llawer o ddangosyddion perfformiad wedi eu cyhoeddi ar gyfer iechyd a diogelwch yn aml yn golygu bod adnoddau'n cael eu dargyfeirio o iechyd a diogelwch i orfodi Bwyd.

Cymhwysedd

Awdurdodi yn gysylltiedig â chymhwysedd

a) Teimlai archwilwyr bod awdurdodau yn ymdrin yn eithaf da ag awdurdodi, er bod rhai arferion wedi ennyn sylwadau; gwelwyd enghreifftiau o awdurdodi yn ôl gradd yn unig yn hytrach nag yn ôl cymhwysedd.

b) o ran cymhwysedd, y farn gyffredinol oedd bod swyddogion yn gymwys i wneud yr hyn yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud.

c) Cwestiynwyd cymhwysedd swyddogion yn ateb galwadau y tu allan i oriau. Ychydig o hyfforddiant iechyd a diogelwch y mae rhai swyddogion wedi ei gael, os o gwbl, ac awdurdod cyfyngedig iawn sydd gan rai ohonynt.

ch) Roedd llawer o swyddogion nad oedd awdurdod ganddynt i gyhoeddi hysbysiadau gwahardd - naill ai o gwbl neu heb wirio gyda chydweithwyr eraill neu eu rheolwr.

Asesu cymhwysedd

a) Dim ond ambell awdurdod oedd â system ffurfiol lle byddai swyddogion yn ymweld yn gyfnodol gyda chwmni [uwch] reolwr at ddibenion adolygu.

Cynnal cymhwysedd

a) Pan nad yw swyddogion ond yn treulio cyfran fechan o'u hamser ar iechyd a diogelwch, a'u bod yn treulio'r rhan fwyaf o amser mewn adeiladau bwyd mae'n fwy anodd cynnal cymhwysedd a magu profiad yn holl ystod gwaith iechyd a diogelwch.

b) Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn fodlon anfon swyddogion i ddigwyddiadau hyfforddi ar lefel Cymru felly i ryw raddau pennwyd hyfforddiant yn ôl yr hyn a oedd ar gael yng Nghymru.

c) Argymhelliad a wnaed ar lawer o adroddiadau, a byddai hyn wedi dod o ymwneud HSE yn y gwaith, oedd gwerth "matrics hyfforddi" h.y. cofnod syml o ba bwnc sydd wedi ei wneud, pa fath o hyfforddiant ydoedd, a phryd y'i cyflawnwyd. Mae hyn yn galluogi asesiad hawdd o sefyllfa unigolyn o ran hyfforddiant, o ran cynnwys a chyfoesedd.

ch) Mae diwedd y cwrs tystysgrif iechyd a diogelwch yn UWIC wedi gadael bwlch hyfforddi ar gyfer y rhai yn y de sy'n newydd i iechyd a diogelwch, bwlch y bu'n rhaid ei lenwi gydag ymdrechion lleol.

d) Datganai'r rhan fwyaf o adroddiadau fod modd i swyddogion fynd i wefannau fel gwefan hyfforddi HELA a'u bod yn eu defnyddio. Roedd gan rai lyfrgelloedd copi caled eang o ddogfennau HSE; roedd gan rai fynediad

i wefannau masnachol. Roedd enghreifftiau prin lle nad oedd hyn yn wir. Cafwyd enghraifft lle nad oedd swyddogion yn ymwybodol o fodolaeth safle HELA.

Ymchwiliadau

Polisïau a Gweithdrefnau

a) Roedd amrywiaeth mawr mewn polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â damweiniau a chwynion. Mae rhai awdurdodau lleol yn ymchwilio i bob damwain, mae'r rhan fwyaf yn ymchwilio i bob cwyn. Rhaid ystyried ai dyma'r defnydd gorau o adnoddau prin; yn sicr mae'n werth adolygu hyn ledled Cymru, er mwyn cytuno ar ymagwedd gyson.

Cynnal ymchwiliadau yn effeithiol

a) Yn gyffredinol cynhelir ymchwiliadau yn effeithiol yn y rhan fwyaf o awdurdodau.

Rheoli gweithgareddau gorfodi

a) Nodwyd bod rhai awdurdodau yn absennol yn rheolaidd yn y tasgluoedd iechyd a diogelwch rhanbarthol

Rheoli Perfformiad

Mesur a monitro gweithgaredd rheoleiddio

a) Yn aml roedd diffyg monitro ystyrlon gan uwch reolwyr; yn aml pan fodolai hyn fe'i cyfyngwyd i ystyried nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd.

b) Ar y pegwn arall roedd gan rai awdurdodau adroddiadau cynnydd manwl a chyfnodol ar berfformiad cyfredol tîm a/neu unigolion; roedd mwy am wneud hyn ond mae eu systemau cofnodi/TG yn ei gwneud yn anodd.

Monitro ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau awdurdodau lleol

a) Nododd rhai awdurdodau lleol fod diffyg cyflwyno adroddiadau yn sgîl y ffaith bod aelodau ond yn ystyried adroddiadau pan fo gofyn am benderfyniad, ac nad ydynt am gael adroddiadau er gwybodaeth.

b) Roedd rhai awdurdodau lleol wedi datblygu holiaduron i werthuso arolygiadau ac ymchwiliadau. Gallai awdurdodau lleol eraill ystyried y rhain.

Meincnodi, adolygiadau gan gymheiriaid ac archwilio

a) Ystyrir y defnydd o feincnodi yn yr archwiliad. Roedd clwb meincnodi iechyd a diogelwch yng Nghymru yr oedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn ei gefnogi, ond daeth hwn i ben ddwy flynedd yn ôl. Roedd rhai awdurdodau wedi ei ddefnyddio er mwyn cymharu, a llwyddodd rhai i gael adnoddau ychwanegol o'r herwydd.

b) Byddai'n dasg gymharol syml llunio tabl (cymharol ar y cyfan, wrth gwrs) o ffigurau allweddol penodol o'r ffurflenni LEA1 a fyddai'n dangos i unrhyw awdurdod lleol beth yw ei safle o gymharu â'r awdurdod lleol cyfartalog. O wneud hynny gellid mynd i'r afael ag amrywiadau sylweddol.

c) Rhaid i bob awdurdod lleol lunio a gweithredu Cynllun Gweithredu ar ôl yr archwiliad.

CASGLIAD

Yn gyffredinol cytunai'r cyfranogwyr i'r ymarfer hwn fod yn un gwerthfawr a buddiol - o ran y profiad o weithio ar y cyd yn ogystal â'r archwiliad ynddo'i hun. Yn amlwg mae gwerth yr archwiliadau yn dibynnu ar weithredu'r argymhellion penodol. Bydd peth o'r wybodaeth sydd wedi deillio o'r archwiliad o werth i'r uned awdurdodau lleol.

Nododd yr archwiliadau hefyd feysydd y mae'n werth eu hystyried ar gyfer rhannu arfer gorau. Gallai'r rhain gynnwys; cwblhau ffurflen gonfodi ar gyfer arolygiadau pwnc a'u gadael ar y safle; systemau ar gyfer cynnal cronfeydd data; meini prawf cyson ledled Cymru ar gyfer cwynion ac ymchwiliadau i ddamweiniau. Mae swyddogion awdurdodau lleol a'u rheolwyr yn awyddus iawn i weld camau o'r fath, yn enwedig lle byddai hynny'n golygu mwy o effeithlonrwydd.

Dylai pob awdurdod lleol gwblhau a gweithredu eu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n deillio o'r archwiliadau unigol.

Dylai'r Panel Technegol Iechyd a Diogelwch gynhyrchu Cynllun Gweithredu i sicrhau na chollir yr arfer gorau a nodir yn ystod yr archwiliad, ond y caiff ei ledaenu i bob awdurdod lleol.

ATODIAD 1 – MEYSYDD I'W GWELLA YN Y BROSES ARCHWILIO

Cofnodir y pwyntiau hyn o edrych yn ôl mewn trefn gronolegol o ran cofnod a hefyd er gwybodaeth i unrhyw un sy'n ystyried ymarfer tebyg yn y dyfodol.

1. Egluro union rôl yr arolygydd HSE h.y. cymedrolwr/cyd-archwiliwr/cyd-awdur.

2. Darparu hyfforddiant tebyg i'r archwilwyr ac i'r rhai sy'n ymateb i'r archwiliad hwnnw: ar ôl nodi'r bobl hynny.

3. Darparu'r hyfforddiant hwnnw yn seiliedig ar waith cam wrth gam drwy'r broses archwilio ac mor agos â phosibl at ddechrau'r broses archwilio.

4. Trefnu archwilio ac yn dilyn hynny (cytuno i) lunio adroddiad ar adeg orau'r flwyddyn i'r bobl berthnasol.

5. Cytuno ar amserlen realistig ond cadarn, yn enwedig ar gyfer cwblhau adroddiadau drafft ac yna'r cytundeb arno wedi hynny.

6. Egluro a chytuno ar ba sefyllfa yn union sy'n cael ei harchwilio; cynlluniau presennol, arfer cyfredol, hyd yn oed cynlluniau'r dyfodol. Ar adegau o newid mawr gall hyn fod yn bwysig ac yn ddryslyd ar yr un pryd.

7. Er y gallai fod rhinwedd ymarferol i gymdogion yn archwilio'i gilydd efallai nad dyma'r dull gorau o ystyried cysylltiadau sy'n bodoli eisoes. Dylid ystyried grŵp archwilio o ryw 3 neu 4 awdurdod lleol.

8. Gwneud hunan-gwblhau'r fframwaith protocol archwilio yn eitem orfodol yn y rhestr siopa ar gyfer y diwrnod cyn archwilio.

9. Darparu rhestr siopa gryno gyda'i hamserlen cyn diwrnod yr archwiliad yn seiliedig ar enghreifftiau presennol fel y cytunir ei fod yn briodol.

10. Yn ymarferol, teimlai pawb fod angen mwy o amser ar gyfer y gwahanol gamau na'r hyn a nodwyd yn yr arweiniad LAC; roedd o leiaf 2 ddiwrnod yn ofynnol ar gyfer yr ymweliad archwilio a'r sesiwn adborth.

11. Cyhoeddi'r sgoriau gwirioneddol yn ogystal â'r sgoriau ffigur cyfan; teimlwyd bod y sgoriau is-adran yn ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau wrth iddynt ystyried eu hadroddiadau.

12. Ystyried rhyw fath o broses gymrodeddu ar gyfer yr achosion hynny a allai godi lle na all y gwahanol ochrau gytuno ar yr adroddiad terfynol hwnnw.

13. Er budd gwell effeithlonrwydd a chysondeb mewn ymarfer mawr o'r math hwn dylid ystyried rhinweddau cael rhai o'r personél i wneud yr holl archwiliadau

neu lawer ohonynt. Fodd bynnag, byddai hyn yn lleihau'r manteision cydweithio.